Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **De Affrica** tudalen 1 o 3

De Affrica, Cymuned Ddwyrain Affrica, Rhesins

Daearyddiaeth: Mae De Affrica ar benrhyn deheuol Affrica, ac mae ei arfordir hir yn ymestyn am fwy na 2,500 cilometr, i'r de o ffin anialwch Namibia, ar arfordir yr Iwerydd o gwmpas blaen Affrica, yna i'r gogledd at y ffin gyda Mozambique isdrofannol ar Fôr India.

Gwers gyflym mewn Zulu: sut i ddweud 'helo'. Mae'r hyn rydych yn ei ddweud yn dibynnu ar y nifer o bobl y byddwch yn eu cyfarch. Dywedwch "sawubona" (sah-woo-BOH-na) i gyfarch 1 person. Dywedwch "sanibonani" (sah-nee-boh-NAH-nee) am 2 neu ragor.



Hinsawdd

Mae De Affrica'n wlad gymharol sych, gyda 46cm o law (o gymharu â chyfartaledd y DU o 93cm). Mae'r Penrhyn Gorllewinol yn cael y rhan fwyaf o'i law yn y gaeaf a gweddill y wlad, yn gyffredinol, yn cael glaw yn yr haf.

Iaith

Mae 11 o ieithoedd swyddogol yn Ne Affrica . Y rhain yw (gan ddechrau gyda'r mwyaf cyffredin) Zulu, Xhosa, Afrikaans, Sotho Gogleddol, Tswana, Saesneg, Sotho Deheuol, Tsonga, Swazi, Venda a Ndebele Deheuol.

Prif allforion De Affrica

yw... aur, diemwntau, metelau a mwynau, ceir, peirannau a gwin.

Wyddech chi?

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **De Affrica** tudalen 2 o 3

De Affrica, Cymuned Ddwyrain Affrica, Rhesins

- Poblogaeth: **49.32 miliwn**
- Dwysedd Poblogaeth: **39 o bobl y cilometr sgwâr**
- Llythrennedd: **89%**
- Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd: **87.5%**
- Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Uwchradd: **71.9%**
- Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 – 49 mlwydd oed): **18.1%**

Ystyr y Faner

Er nad oes ystyr swyddogol i liwiau baner De Affrica, mae gwahanol bobl yn dadlau eu bod yn golygu gwahanol bethau. Mae coch, gwyn a glas yn gyffredin yn hanesyddol ar faneri De Affrica, gan gynnwys baneri trefedigaethol Prydain a'r Iseldiroedd, a gwyrdd, du ac aur yn aml yn lliwiau pobl Affrica ac yn lliwiau plaid wleidyddol Nelson Mandela, Cyngres Genedlaethol Affrica. Gellir gweld prif ddyluniad y faner, sef yr 'Y' gwyrdd sy'n dechrau wrth bolyn y faner ac yn dod at ei gilydd yng nghanol y faner, fel gwahanol bobl De Affrica yn uno ac yn symud ymlaen gyda'i gilydd.

Wyddech chi?

Mae bwydydd De Affrica'n yn dibynnu'n drwm ar gig ac wedi esgor ar y digwyddiad cymdeithasol nodweddiadol o Dde Affrica o'r enw 'a braai' neu barbiciw.

Crefydd: Mae cymysgedd eang o grefyddau yn Ne Affrica. Cristnogaeth yw'r fwyaf poblogaidd (dros 73%), yna crefyddau Affricanaidd traddodiadol (15%), gydag Islam ac Hindiwiaeth yr un mor fychan (1.5%). 8.5% o'r bobl a arolygwyd 'ddim yn grefyddol' neu arall'.



Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: **De Affrica** tudalen 3 o 3

De Affrica, Cymuned Ddwyrain Affrica, Rhesins

History

100,000 CC	500 OC	1652	1816-1826	1880-1881/1899-1902	1934
Bodau dynol cyntaf yn dechrau cartrefi	Mae pobl y Bantu'n cyrraedd, gan ddod â ffermio ac anifeiliaid domestig.	Riebeeck o Dutch East India Company yn sefydlu Cape Colony.	Sefydlwyd Ymerodraeth nerthol y Zulu	Rhyfeloedd y Boer yn erbyn y Prydeinwyr	De Affrica'n cael annibyniaeth oddi wrth Brydain

1948	1960s	1961	1964	1994
Polisi o apartheid yn cael ei fabwysiadu wrth i'r Blaid Genedlaethol gymryd yr awenau	Pwysau rhyngwladol yn erbyn y llywodraeth yn dechrau. De Affrica'n cael ei heithrio o'r Gemau Olympaidd	De Affrica'n cael ei ddatgan yn weriniaeth, gan adael y Gyfamwlad	Arweinydd Cyngres Genedlaethol Affrica (ANC), Nelson Mandela'n cael ei ddedfrydu i oes yn y carchar	Yr ANC yn ennill yr etholiadau cyntaf heb fod ar sail hil. Mandela'n dod yn arlywydd

34% o bobl De Affrica'n bodoli ar lai na $2 y diwrnod.

Er gwaethaf gweddnewidiad arwyddocaol ers 1994, mae De Affrica'n dal i wynebu newidiadau cymdeithasol economaidd mawr, gan gynnwys diweithdra uchel parhaus ar 29% a thlodi, gyda 34% o bobl De Affrica'n bodoli ar lai na $2 y diwrnod.

Beth yw Apartheid?

System o lywodraeth ble mae gwahanol grwpiau hiliol yn cael eu gorfodi i fyw ar wahân a phobl nad ydynt yn wyn yn cael eu trin yn israddol.

Canolbwynt ar y Wlad: Afon Orange

Afon Orange yw'r afon hiraf yn Ne Affrica. Mae'n codi ym Mynyddoedd Drakensberg yn Lesotho, yn llifo i'r gorllewin trwy Dde Affrica i Fôr yr Iwerydd. Mae'r afon yn ffurfio rhan o'r ffiniau rhyngwladol rhwng De Affrica a Namibia a rhwng De Affrica a Lesotho. Mae'n mynd heibio ymyl ddeheuol Anialwch y Kalahari ac yn troelli trwy Anialwch Namib cyn llifo i Fôr yr Iwerydd yn Ne Affrica. Mae tua 1,300 o filltiroedd o hyd. Er gwaethaf y ffaith nad yw'r afon yn mynd trwy unrhyw brif ddinasoedd, mae'n chwarae rôl bwysig yn economi De Affrica drwy ddarparu dŵr i ddyfrio yn ogystal ag ynni hydro-electrig.